# Clecs Camwy

## CROESAWU'R ATHRAWON NEWYDD

Ym mis Chwefror, croesawyd 6 athro newydd yn y Dyffryn. Maen nhw wedi mwynhau eu hamser yma'n fawr iawn ac yn edrych ymlaen at y 5 mis nesaf! Y mis yma, bydd Sinead hefyd yn ymuno â nhw. Dyma ychydig amdanyn nhw:





Enw: Geraint Ashton
O ble rwyt ti'n dod yn wrieddiol? Ystrad Mynach ger Caerffili

Swydd bresennol yn y Wladfa: Swyddog Datblygu'r Gymraeg, gweithio yn y Gaiman, Trelew a Phorth Madryn

Uchafbwynt hyd yma: Teithio o gwmpas y Dyffryn a chwrdd â chymaint o bobl newydd ar fy nheithiau

Hoff beth am y Wladfa: Y bobl, y croeso, yr iaith Gymraeg!

Rhywbeth i fynd i Gymru gyda ti: Yr awydd sy gan y bobl yma i ddysgu Cymraeg

Hoff gân Gymraeg: Colorama - Dere Mewn



Enw: Cari Davies

O ble rwyt ti'n dod yn wrieddiol? Pontarddulais, Abertawe

Swydd bresennol yn y Wladfa: dysgu llawn amser yn Ysgol Gymraeg y Gaiman

Uchafbwynt hyd yma:gweld y golygfeydd anhygoel o'r Pirámides i'r Andes a chwrdd â gymaint o bobl arbennig!

Hoff beth am y Wladfa: cyfeillgarwch pawb a'r pethau melys - LYSH!

Rhywbeth i fynd i Gymru gyda ti: Luned González!

Hoff gân Gymraeg: Yws Gwynedd - Trwy Dy Lygid Di



Enw: Rhidian Rees
O ble rwyt ti'n dod yn wrieddiol? Brynaman

Swydd bresennol yn y Wladfa: Athro Cymraeg yn Ysgol yr Hendre

Uchafbwynt hyd yma: Cerdded yn yr Andes a gweld morfilod yn Playa El Doradillo


Digwyddiad gwaethaf ers cyrraedd: Torri 'mhen ar ôl syrthio yn y Mochyn Du

Hoff beth am y Wladfa: Cwrdd â phobl leol heb deulu Cymreig sy'n gwneud yr ymdrech i ddysgu Cymraeg

Rhywbeth i fynd i Gymru gdya ti: Dulce de Leche

Hoff gân Gymraeg: Tebot Piws- Ma Rhywun Wedi Dwyn Fy Nhrwyn

# Clecs Camwy



Enw: Sinead Harris

O ble rwyt ti'n dod yn wrieddiol? Pontypridd

Swydd bresennol yn y Wladfa: Swyddog Datblygu'r Gymraeg (menter) - wedi bod yn yr Andes am y 6 mis cynta ond newydd symud i'r Dyffryn

Uchafbwynt hyd yma: Clywed plant bach y Wladfa yn canu yn y Gymraeg

Rhywbeth i fynd i Gymru gyda ti: Dulce de leche

Hoff gân Gymraeg: Harbwr Diogel - Elin Fflur



Enw: Michael Downey

O ble rwyt ti'n dod yn wrieddiol? Caernarfon

Swydd bresennol yn y Wladfa: Dysgu plant yn Ysgol Gymraeg Y Gaiman; hyfforddi rygbi ac yn dysgu Cymraeg i blant yng nghlwb rygbi'r Ddraig Goch

Uchafbwynt hyd yma: Canu gyda Delfor ap Iwan ym Mar España a gweld Alejandro Jones yn canu yn Eisteddfod Trevelin

Hoff beth am y Wladfa: Asados

Rhywbeth i fynd i Gymru gyda ti: Mate a Fernet

Hoff gân Gymraeg: Cofio Dy Wyneb - Bryn Fôn



Enw llawn: Siwan Evans

O ble rwyt ti'n dod yn wrieddiol? Magu - Sir Fôn, byw - Penrhyndeudraeth

Swydd bresennol yn y Wladfa: Ysgol yr Hendre - dysgu cerddoriaeth a dawnsio gwerin

Uchafbwynt hyd yma: Crwydro o gwmpas y wlad sydd yn wahanol iawn i Gymru ac ymarfer fy Sbaeneg

Digwyddiad gwaethaf ers cyrraedd: Camddeall pethau yn Sbaeneg!

Rhywbeth i fynd i Gymru gyda ti: Fy nannedd! Mae gen i ofn y byddan nhw yn disgyn allan wrth fwyta'r holl bethau melys sydd yma!

Hoff gân Gymraeg: Band Pres Llareggub hefo Alys Williams - Cymylau



Enw llawn: Caitlin Elliott
O ble rwyt ti'n dod yn wrieddiol? Caerdydd
Swydd bresennol yn y Wladfa: Newydd adael! Ron i'n gynorthwywraig yn Ysgol yr Hendre.
Uchafbwynt hyd yma: Golygfeydd anhygoel Madryn, Trevelin ac Esquel
Digwyddiad gwaethaf: Llawer o gamddeall Sbaeneg!
Hoff beth am y Wladfa: Y bobl - bendant!
Rhywbeth i fynd i Gymru gyda ti: Guanacos!
Hoff gân Gymraeg: Yws Gwynedd - Sebona Fi

(Gadawodd Caitlin y Wladfa y mis diwethaf, er mwyn teithio o amgylch de Cymru a bydd yn dychwelyd i'w hastudiaethau ym Mhrydain ym mis Medi. Pob lwc i ti, Caitlin!)

# Clecs Camwy



Chwith i'r dde: Cari Davies, Meic Downey, Sibyl Hughes a Geraint Ashton



Florencia Zaldegui



Judith Ellis


Roedd rhai o'r athrawon newydd ynghyd â Sibyl Hughes hefyd wedi cystadlu yn Eisteddfod Trevelin eleni ond cawson nhw eu curo gan grŵp yr Andes eleni. Y mis yma, aeth Sibyl Hughes o'r Dyffryn i Gymru drwy ennill ysgoloriaeth i barhau i ddysgu'r Gymraeg.

Hefyd, mae Florencia Zaldegui o'r Dyffryn a Judith Ellis o'r Andes (isod) wedi mynd drwy hefyd ennill ysgoloriaethau ac felly dymunwn bob lwc i'r tair ohonyn nhw!

**Te Pnawn**

Roedd Te Prynhawn gan Gymdeithas San David yn gyfnod gwych i fwynhau bara menyn a chacennau cartref blasus iawn wrth chwarae bingo! Hefyd, cawsom ein diddanu gyda cherddoriaeth draddodiadol Gymreig a cherddoriaeth yr Ariannin. Roedd nifer fawr o wobrau ar gael ac mi oedd e'n gyfle gwych i godi arian at Eisteddfod Y Wladfa. Diolch i bawb a helpodd ac i'r rheini a fynychodd y digwyddiad!

## Cornel Dewi



Enw: Dewi
Oedran: 9 mis
Byw: Tŷ Camwy
Hoff fwyd: Menyn (unrhyw beth galla i ffeindio yng nghegin Tŷ Camwy)
Diddordebau: Busnesa o gwmpas Coleg Camwy, dringo coed, canu grwndi, cwtsho gyda Cari a bwyta!
Ffaith diddorol: Mae llawer o bobl yn meddwl fy mod i'n ddi-gartref ond mewn gwirionedd mae trigolion Ty Camwy yn fy ngharu i
Casau: Cŵn a bod yn unig
Talent: Gallu hudo unrhyw un i fy mwytho i!
Gobeithion am y dyfodol: Cael cysgu mewn gwely Geraint bob nos

# Clecs Camwy

## Ffair Lyfrau'r Gaiman

Roedd Ffair Lyfrau'r Gaiman yn llwyddiant ysgubol eleni. Aeth plant Ysgol Gymraeg y Gaiman i'r ffair lle cawson nhw'r cael cyfle i grwydro'r stondinau a phrynu llyfrau. Roedd llawer o ddawnsio gwerin Cymreig ac Archentaidd a chyfle i wrando ar nifer o gantorion lleol, eto yn Gymraeg ac yn Sbaeneg. Da iawn i bawb a gymerodd ran!



**Plant YGYG yn mwynhau darlleniad**



**Dawnswyr Gwanwyn Dim Problem**

## Eisteddfod Mini Bethel

Mi oedd yn bleser o'r mwyaf gweld cymaint o bobl yn Hen Gapel Bethel eleni yn mynychu Eisteddfod Mini Bethel.







Roedd y neuadd yn orlawn gyda chystadleuwyr a chefnogwyr a phawb wrth eu boddau'n mwynhau dathlu'r holl ganu, dawnsio, adrodd, canlyniadau'r gwaith cartref (megis hunangofiant y lein ddillad gan Marlín) ac eitemau cerddorol.... heb sôn wrth gwrs am sgets wreiddiol tu hwnt!





# Clecs Camwy

## Dosbarth Ioga



Mae dosbarth Ioga wedi dechrau yn Ysgol Gymraeg Y Gaiman sy'n cael ei redeg gan Mariela Bonavia sy'n dysgu Cymraeg! Hyfryd gweld staff Ysgol Gymraeg Y Gaiman yn mynychu'n wythnosol bob prynhawn Gwener. Daliwch ati!

**Chwith i'r dde: Geraint Ashton, Esyllt Nest Roberts, Rebeca White, María Angélica Evans, Mariel Bonavía a Cari Davies**

# Modryb Mair

Annwyl Mair,
Mae gen i broblem yr hoffwn gael cyngor yn ei chylch. Fel y gwyddoch, mae te o Gymru yn llawer gwell na the'r Ariannin. Byddaf yn trysori pob paced o sachau te a gaf gan gyfeillion o'r Hen Wlad ac yn eu defnyddio'n ofalus iawn. Ond pan ddaw Cymro neu Gymraes i ymweld â mi, a ddylwn i 'wastraffu' fy sachau te prin arnyn nhw, sydd wedi'r cyfan yn gallu cael paned 'auténtico' pob dydd pan fyddant gartref? Fyddai hi'n weithred grintachlyd pe bawn i'n rhoi paned o de Taraguí iddyn nhw?
Diolch i chi, rhag blaen, am eich cyngor.
Cofion cynnes,
Gwraig y Tebot.



Annwyl Wraig y Tebot,
Mae'n rhaid i mi gyfaddef, rwy'n cytuno am safon y te o Gymru. Does dim cymhariaeth o gwbl rhwng y ddau de. Ond, mae'n dibynnu sut cest ti'r bagiau te yn y lle cyntaf. Ystyria: Ai gan Gymro neu Gymraes hael y cest ti nhw yn y lle cyntaf? Os felly, does dim dwywaith y dylet ti eu rhannu nhw, ond os mai prynu nhw o Gymru y gwnest ti a phrin iawn rwyt ti'n eu defnyddio nhw dy hunan, yna, na(!), cuddia nhw.

Hefyd, rhaid gofyn y cwestiwn "Ai gwastraffu'r te hwn rwyt ti?" Cofia mai paned Gymreig go iawn sydd ei hangen pan fo angen "paned a chlonc." Felly, yn fy marn i, na, paid â bod yn rhy grintachlyd gyda nhw, mae'r Cymry'n haeddu'r gorau wedi'r cwbl!

Oes gennych chi broblem y galla i helpu chi gyda hi?
Cysylltwch â Modryb Mair drwy anfon llythyr at "Tŷ Camwy".

## Estyniad yn Ysgol Gymraeg Y Gaiman



Eleni, roedd yn bleser mawr cyhoeddi fod Ysgol Gymraeg y Gaiman wedi cael estyniad ar yr adeilad newydd y tu allan! Mae'r plant wrth eu boddau yn dysgu yn yr ystafell hon!

## Noson Lenyddol



Yn dilyn llwyddiant arbennig Ana Chiabrando yn Eisteddfod Trevelin, cynhaliwyd noson lenyddol yn Nhŷ Camwy, i ddathlu ei gwaith a darllen ei DWY gerdd a ddaeth yn gyntaf AC yn ail!! Llongyfarchiadau Ana!

## La Hora Galesa

Oes gennych chi newyddion am ddigwyddiadau yn yr ardal? Cofiwch gysylltu â Luned a chofiwch wrando bob dydd Gwener!

